DATGANIAD I'R CYFRYNGAU

GWAHERDDIR EI GYHOEDDI TAN 09.30 AWR – DYDD IAU, 21 AWST 2008

ARHOLIAD TGAU 2008

LEFEL MYNEDIAD 2008

CYMHWYSTER BAGLORIAETH CYMRU
– DIPLOMÂU CANOLRADD A SYLFAEN 2008

CANLYNIADAU TGAU CYMRU'N GWELLA'N GYSON

Cyhoeddwyd canlyniadau TGAU 2008 Cymru heddiw (Dydd Iau 21 Awst) gan ddangos gwelliant ar Radd C o gymharu â blynyddoedd blaenorol, tra oedd canlyniadau ar raddau eraill yn debyg iawn i 2007. Enillodd 65.0% o'r myfyrwyr raddau A*-C o'i gymharu â 63.0% y llynedd. Roedd y canran yn ennill A* yn 6.1% o gymharu â 6.3% llynedd, gyda 18.9% yn cyrraedd A neu A* (o gymharu â 18.6% yn 2007).

Ar y cyfan roedd y safon yng Nghymru'n debyg iawn i'r canlyniadau a gafwyd yn y DU yn gyffredinol. Enillodd 65.7% o'r myfyrwyr yn y DU raddau A* i C, ac enillodd 6.8% y radd uchaf, A*.

Croesawyd y canlyniadau gan Gyfarwyddwr Arholiadau ac Asesu CBAC, Derec Stockley. "Rwy'n falch iawn bod y myfyrwyr unwaith eto wedi gwneud yn arbennig o dda," dywedodd. "Mae athrawon a myfyrwyr yn gweithio'n galed iawn i gael canlyniadau rhagorol ac maent i'w llongyfarch am eu gwaith caled. Gall y myfyrwyr fod yn hynod o falch o'u cyflawniad a hoffai CBAC ddymuno'r gorau iddynt am y dyfodol."

Cofrestriadau TGAU CBAC yng Nghymru a Lloegr

Mae cyfanswm cofrestriadau TGAU CBAC wedi cynyddu 5.8% i dros 567,741 eleni. Daeth y cofrestriadau mwyaf eraill CBAC ym mhynciau Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, Astudiaethau Crefyddol, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Chymraeg Ail Iaith.

"Mae'r cynnydd yng nghofrestriadau CBAC eto eleni'n deyrnged i'n staff a'r timau o arholwyr," dywedodd Derec Stockley. "Mae CBAC wedi gweithio'n galed i feithrin enw da fel corff dyfarnu sy'n agos atoch a chanlyniad hyn, yn fy marn i, yw bod mwy a mwy o athrawon yn cydnabod ansawdd y gwasanaeth y gall CBAC ei gynnig."

CANLYNIADAU TGAU YNG NGHYMRU (Yr Holl Gyrff Dyfarnu)

Rhoddir isod grynodeb o brif nodweddion canlyniadau'r cyrsiau TGAU llawn am 2008 yng Nghymru (Cwricwlwm Cenedlaethol a detholiad o bynciau eraill). Darperir ffigurau cynhwysfawr fesul gwlad (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) gan y Cyd-gyngor Cymwysterau a gellir eu cyrchu o 09.30 awr Ddydd Iau, 21 Awst yn www.jcq.org.uk

- Cyfanswm y cofrestriadau pwnc gyda'r holl gyrff dyfarnu ar gyfer cyrsiau llawn TGAU yng Nghymru yn 2008 oedd 310,089. Mae hyn yn ostyngiad o 5,039 (1.6%) o'i gymharu â 2007 er bod y ffigur yn gyffredinol wedi aros yn eithaf sefydlog am y 5 mlynedd ddiwethaf.

- Y gyfradd llwyddo gyffredinol (Graddau A*-G) yw 98.4%, sydd yr un peth â'r DU yn gyffredinol, a chynnydd o 0.4% ar y ffigur cyfatebol yn 2007.

- Canran yr ymgeiswyr yn ennill Graddau A*-C yw 65.0%, yn cynrychioli cynnydd o 2.0% ar y ffigur cyfatebol yn 2007. Mae hyn 0.7% yn is na'r ffigur 2008 ar gyfer y DU.

- Canran yr ymgeiswyr yn ennill y graddau uchaf (A* ac A) yw 18.9%, yn cynrychioli cynnydd o 0.3% ar y ffigur cyfatebol yn 2007. Mae hyn 1.8% yn is na'r ffigur 2008 ar gyfer y DU.

- Mae'r arholiadau wedi eu seilio ar yr un manylebau â 2007 ac eithrio Gwyddoniaeth, lle mae newidiadau i'r cwicwlwm gwyddoniaeth wedi effeithio ar batrymau cofrestru. Disodlwyd yr hen Gwyddoniaeth Dwyradd gan ddau gymhwyster ar wahân – Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol yn ogystal â'r gwyddorau ar wahân, sef Bioleg, Cemeg a Ffiseg. Mae strwythur unedol y manylebau hyn yn caniatáu asesiadau fesul cam ac ail-sefyll, ac yn darparu llwybrau dilyniant hyblyg i ymgeiswyr. Nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng Gwyddoniaeth neu Wyddoniaeth Ychwanegol a'r Gwyddoniaeth Gradd Unigol a Dwyradd blaenorol; eto i gyd, mae cofrestriadau ar gyfer y gwyddorau ar wahân heb eu newid ar y cyfan, ond yn dangos gwelliant arwyddocaol mewn perfformiad.

- Ochr yn ochr â gostyngiad bach mewn cofrestriadau yn y rhan fwyaf o bynciau, cafwyd cynnydd arwyddocaol mewn cofrestriadau ar gyfer Astudio'r Cyfryngau (+14%), Drama (+6%) ac Astudiaethau Crefyddol (+5%). Tra oedd cofrestriadau ar gyfer Sbaeneg ac Almaeneg yn sefydlog, cafwyd gostyngiad pellach (-5%) yn Ffrangeg.

- Cafwyd cynnydd calonogol mewn cofrestriadau ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf (+5%) a Chymraeg Ail Iaith (+6%).

- O ran y canlyniadau cyffredinol, mae benywod yn parhau i wneud yn well na gwrywod ar bob gradd. Canran y benywod yn ennill Graddau A*-A yw 21.6% o'i gymharu â gwrywod sy'n ennill 16.2%; ar gyfer Graddau A*-C canran y benywod yn ennill y graddau hyn yw 68.6% tra bod canran y gwrywod sy'n ennill y graddau hyn yn 61.4%. O'r cofrestriad cyfan yng Nghymru am y cyrsiau llawn TGAU (310,089) cyflwynwyd tua 6,000 cofrestriad yn fwy gan fenywod. Mae'r patrymau hyn yn debyg iawn trwy Gymru a Lloegr.

- Cyfanswm cofrestriadau'r Cyrsiau Byr TGAU oedd 37,326, o'i gymharu â 35,895 yn 2007 sy'n cynrychioli cynnydd o 4.0%.

- Cyfanswm cofrestriadau'r TGAU Cymhwysol oedd 5,701 o'i gymharu â 6,264 yn 2007. TGAU 'Dwyradd' yw'r rhain, er mai unwaith yn unig y cyfrifir pob cofrestriad ymgeisydd yn yr achos hwn. O'r 13 pwnc a gymerir, roedd y cofrestriadau mwyaf ar gyfer Gwyddoniaeth Gymhwysol (1,581), Iechyd a Gofal Cymdeithasol (1,225) a Busnes Cymhwysol (1,036).

Canlyniadau TGAU: Cymru – pob corff dyfarnu
Canrannau Cronnus yn ennill Graddau A*-C ac A*-G

Pwnc	Cofrestriad		Graddau A* - C %		Graddau A* - G %	
	2007	2008	*2007*	2008	*2007*	2008
Celf	*11,055*	10,864	*74.3*	74.9	*99.5*	99.5
Astudiaethau Busnes	*4,427*	4,118	*59.9*	60.7	*97.5*	97.5
Dylunio a Thechnoleg	*13,616*	13,002	*59.9*	60.3	*97.3*	97.8
Drama	*4,182*	4,453	*72.1*	74.9	*99.1*	99.2
Saesneg	*39,213*	38,737	*61.0*	62.4	*98.8*	98.8
Llenyddiaeth Saesneg	*29,450*	29,374	*67.7*	68.4	*98.6*	98.6
Ffrangeg	*8,343*	7,944	*75.0*	74.3	*99.7*	99.8
Almaeneg	*2,144*	2,133	*79.0*	77.3	*99.9*	99.8
Sbaeneg	*1,644*	1,630	*74.5*	75.2	*99.5*	99.9
Daearyddiaeth	*14,279*	13,692	*66.1*	66.7	*98.5*	98.8
Hanes	*13,018*	12,751	*68.0*	66.2	*97.6*	97.2
TGCh	*10,876*	10,016	*66.6*	67.9	*97.2*	97.7
Mathemateg	*39,431*	39,158	*51.8*	52.1	*95.7*	96.6
Astudio'r Cyfryngau/Ffilm/Teledu	*2,874*	3,288	*67.6*	70.4	*98.0*	98.5
Cerddoriaeth	*3,878*	3,779	*80.5*	79.3	*99.3*	99.3
Addysg Gorfforol	*9,152*	8,946	*70.5*	69.2	*99.8*	99.9
Astudiaethau Crefyddol	*5,630*	5,891	*70.1*	71.3	*98.4*	98.6
Gwyddoniaeth (Manyleb Newydd)	**1,491*	30,466	*53.8*	58.6	*97.7*	98.4
Gwyddoniaeth Ychwanegol (Manyleb Newydd)	-	24,432	*62.1*	62.1	*98.9*	98.9
Gwyddoniaeth: Bioleg	*3,928*	3,993	*85.2*	89.5	*99.2*	99.9
Gwyddoniaeth: Cemeg	*3,710*	3,791	*86.9*	90.9	*99.4*	99.8
Gwyddoniaeth: Ffiseg	*3,713*	3,721	*85.8*	89.7	*99.2*	99.9
Cymraeg (Iaith Gyntaf)	*5,183*	5,436	*72.9*	72.1	*99.8*	99.9
Llenyddiaeth Gymraeg	*4,132*	4,126	*71.2*	72.2	*99.3*	99.8
Cymraeg (Ail Iaith)	*9,629*	10,044	*70.4*	70.2	*99.2*	99.3
Cymraeg (Ail – Byr)	*10,486*	11,235	*47.3*	44.5	*97.5*	96.8
Cyfanswm (**Pob** Pwnc Cwrs Llawn)	*315,128*	310,089	*63.0*	65.0	*98.0*	98.4

*Cofrestriadau Blwyddyn 10 yn unig yn 2007.

COFRESTRIADAU TGAU CBAC

Mae nifer sylweddol o ysgolion a cholegau yn Lloegr hefyd yn sefyll arholiadau TGAU CBAC; yn wir mae'r twf sylweddol mewn cofrestriadau ar gyfer rhai pynciau'n deillio'n fawr iawn o'r cynnydd yn y niferoedd sy'n cymryd ein manylebau yn Lloegr.

Cyfanswm y cofrestriadau pwnc o'r holl ganolfannau ar gyfer arholiad TGAU CBAC yn 2008 oedd 567,741. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 5.8% ar y ffigur cyfatebol yn 2007.

Cyfanswm y cofrestriadau pwnc o ganolfannau yng Nghymru ar gyfer yr arholiad TGAU a gynigiwyd gan CBAC yn 2008 (gan gynnwys Cyrsiau Byr a TGAU mewn pynciau galwedigaethol) oedd 278,576. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 1.6% ar y ffigur cyfatebol yn 2007.

TYSTYSGRIFAU LEFEL MYNEDIAD

Cyfanswm y cofrestriadau am arholiadau Lefel Mynediad yng Nghymru yn 2008 oedd 13,501 o'i gymharu â 14,139 yn 2007.

Roedd y canlyniadau, a adroddir fel Mynediad 1 ('Llwyddiant' yn flaenorol), Mynediad 2 ('Teilyngdod' yn flaenorol) a Mynediad 3 ('Anrhydedd' yn flaenorol) fel a ganlyn:

	2007	**2008**
Mynediad 3:	*37.8*	37.4
Mynediad 2:	*76.5*	77.6
Mynediad 1:	*94.9*	96.1

Cyfanswm y cofrestriad am arholiadau Lefel Mynediad yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2008 oedd 120,762, o'i gymharu â 125,620 yn 2007, gostyngiad o 3.9%. Bu CBAC ar flaen y gad o ran arloesi'r manylebau cyntaf ar y lefel hon, gan gynnig set cynhwysfawr o gyrsiau dros yr ugain mlynedd diwethaf, a CBAC yw'r prif ddarparwr o hyd. Roedd cyfanswm y cofrestriadau gyda CBAC yn 35,342 – gostyngiad o 280 (0.8%) o'i gymharu â 2007. Ynghyd â chofrestriadau yng Ngogledd Iwerddon - lle y rhedwyd manylebau a ddarparwyd gan CBAC gan CCEA - mae hyn yn cynrychioli tua 30% o'r cofrestriadau cyfan yn y DU.

DIPLOMÂU CANOLRADD A SYLFAEN BAGLORIAETH CYMRU

Mae'n bleser gan CBAC gadarnhau pumed dyfarniad Awst Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru ac ail ddyfarniad y Diploma Sylfaen. Mae'r lefel Canolradd cyn-16 a lefel Sylfaen 14-19 yn rhan o'r peilot a ariennir gan lywodraeth Cynulliad Cymru, i'w cwblhau yn Awst 2009. Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd lefel Sylfaen Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a darpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 4 ar gael i eraill o Fedi 2009.

Mae canlyniadau'r haf yma'n cynnwys y canlyniadau cyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer ymgeiswyr yng Nghyfnod Allweddol 4 sydd wedi cymryd y Diploma Sylfaen neu Ganolradd ar ôl dwy flynedd yn yr ysgol, neu fel rhan o bartneriaeth rhwng ysgol a choleg. Dyma'r ail set o ganlyniadau ar gyfer y Diploma Sylfaen ac mae'n cynnwys ymgeiswyr a ddechreuodd eu cyrsiau ym Medi 2007.

Dyluniwyd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru er mwyn darparu profiad addysgiadol eang a chyfoethog ar gyfer myfyrwyr trwy eu hastudiaeth o'r craidd a'r opsiynau pwnc. Mae natur drosfwaol Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn disgwyl i ymgeiswyr i fod yn llwyddiannus ym mhob un o'r cydrannau gwahanol. Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchiad o ymrwymiad yr ymgeiswyr a'u hathrawon a darlithwyr wrth gwrdd â gofynion heriol Bagloriaeth Cymru.

Dywedodd Julie Griffiths, Pennaeth Ysgol Gyfun Tre-Gib yn Llandeilo, "Mae pawb sy'n ymwneud ag Ysgol Tre-Gib yn falch iawn bod y gwaith caled oedd ynghlwm wrth beilota'r Bac Cymreig ar Lefel Ganolradd wedi talu ar ei ganfed. Nid oes unrhyw amheuaeth bod ein myfyrwyr TGAU wedi elwa'n fawr o raglen graidd y Bac Cymreig, a bydd hyn yn sylfaen ardderchog i lwyddo ymhellach wrth i'r bobl ifanc hyn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg."

Mae nifer yr ymgeiswyr a gofrestrwyd ar y lefel Ganolradd wedi mwy na dyblu ers 2007, gan gyrraedd 1,309 ac yn cynrychioli cynnydd o 136%. Nifer yr ymgeiswyr a gofrestrwyd am y Lefel Sylfaen oedd 1085, sydd eto'n cynrychioli cryn gynnydd ar y 354 ymgeisydd a gofrestrwyd yn 2007. Enillwyd y Diploma Canolradd gan 603 dysgwr a'r Diploma Sylfaen gan 450 dysgwr, ac mae'r ddau ffigur hyn yn gynnydd sylweddol ar ffigurau 2007. Cyflawnodd 735 ymgeisydd ar y lefel Ganolradd a 626 ymgeisydd ar y lefel Sylfaen Dystysgrif Graidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae'r ymgeiswyr hynny nad ydynt eto wedi ennill y Diplomâu Canolradd neu Sylfaen hyd yn hyn wedi elwa o'r profiadau addysgiadol eang y mae'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru'n eu darparu ac wedi ennill amrywiol gymwysterau sgiliau allweddol.

Mae natur gronnus Bagloriaeth Cymru'n golygu y bydd llawer o ymgeiswyr nad ydynt eto wedi ennill y Dystysgrif Graidd neu Ddiploma llawn yn gallu gwneud hynny, cyn belled â'u bod yn cyflawni'r rhannau o'r cymhwyster sy'n weddill yn y flwyddyn academaidd i ddod. Gall yr ymgeiswyr hyn ddewis rhoi cynnig arall arni ar gyfer y Diploma Sylfaen neu Ganolradd trwy gofrestru ar gyfer mis Mawrth neu fis Awst 2009.

Diploma Sylfaen Bagloriaeth Cymru	**Haf 2008**
Ymgeiswyr a gofrestrwyd (o 12 ysgol ac 11 coleg)	1085
Ymgeiswyr yn cwblhau'r rhaglen	1013
Ymgeiswyr y dyfarnwyd y Diploma Sylfaen iddynt *(o leiaf 4 TGAU D-G neu gywerth* *ynghyd â 4 Sgìl Allweddol ar lefel 1 a Chraidd Bac Cymreig arall)*	450
Ymgeiswyr y dyfarnwyd y Dystysgrif Graidd iddynt *(cyflawnwyd 4 Sgìl Allweddol ar lefel 1 a Chraidd Bac Cymreig arall)*	626

Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru	**Haf 2008**
Ymgeiswyr a gofrestrwyd (o 21 ysgol ac 11 coleg)	1309
Ymgeiswyr yn cwblhau'r rhaglen	1173
Ymgeiswyr y dyfarnwyd y Diploma Canolradd iddynt *(o leiaf 4 TGAU A*-C neu gywerth)* *ynghyd â 4 Sgìl Allweddol ar lefelau 1 a 2 a Chraidd Bac Cymreig arall)*	603
Ymgeiswyr y dyfarnwyd y Dystysgrif Graidd iddynt *(cyflawnwyd 4 Sgìl Allweddol ar lefelau 1 a 2 a Chraidd Bac Cymreig arall)*	735

NODIADAU GOLYGYDDION

Rhoi Canlyniadau Arholiad yn eu cyd-destun.

Wrth gymharu canlyniadau ysgolion unigol neu grwpiau o ysgolion gydag unrhyw gyfansymiau agregol, dylid cadw mewn cof bod amrywiadau sylweddol i'w disgwyl rhwng ysgolion: mae nifer o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac addysgol sy'n effeithio ar berfformiadau disgyblion mewn arholiadau, un yn unig o'r rhain yw effeithlonrwydd yr ysgol.

TGAU – Cyffredinol
Mae'r TGAU yn rhan o fframwaith cymwysterau sy'n gyffredin trwy Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Darperir data cynhwysfawr am gofrestriadau a chanlyniadau fesul gwlad gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk). Gellir eu cyrchu o 09.30 ar ddydd Iau 21 Awst.

Cyrsiau Byr TGAU
Mae Cwrs Byr TGAU yn cyfateb i hanner TGAU. Mae'r system raddio yr un fath â'r un ar gyfer Cyrsiau Llawn TGAU.

TGAU Cymhwysol
Arholwyd y TGAU Cymhwysol am y tro cyntaf yn 2004. Mae'r rhain yn TGAU 'Dwyradd' sy'n cyfrif fel dau gofrestriad pwnc ac sy'n anelu at ddarparu cyflwyniad i faes galwedigaethol eang. Maent yn cael eu graddio ar raddfa 15 pwynt (A*A*, A*A, AA, AB hyd at GG).

Lefel Mynediad
Tan 2001 galwyd arholiadau Lefel Mynediad yn Dystysgrif Cyflawniad Addysgol. Fe'u hanelir at fyfyrwyr na chredir bod y TGAU yn addas ar eu cyfer.

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
Cymhwyster trosfwaol yw Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, sy'n cael ei gynnig gan CBAC ar hyn o bryd, ar y cyd â Fforwm a Phrifysgol Caerfaddon, dan gytundeb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Dyluniwyd Bagloriaeth Cymru i roi profiad addysgol mwy cyfoethog ac eang i ddysgwyr ochr yn ochr â'u pynciau opsiynol. Mae'r rhaglen astudio'n cynnwys Craidd ac Opsiynau. Mae pedair cydran i'r Craidd – Sgiliau Allweddol; Cymru, Ewrop a'r Byd; Addysg Gysylltiedig â Gwaith; ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Yr Opsiynau yw'r pynciau a'r cyrsiau megis TGAU, TGAU Galwedigaethol, NVQ a CABAT sy'n ffurfio rhaglen astudio gyflawn yr ymgeisydd. Dyfernir Diploma Bagloriaeth Cymru ar y lefel briodol i ymgeiswyr sy'n cwblhau pob rhan y CBC (Craidd ac Opsiynau) i'r safonau angenrheidiol.

Mae Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru'n cael ei beilota yn yr ystod oedran 14-16 o fis Medi 2006 tan fis Awst 2009 gyda'r Diploma Sylfaen yn cael ei beilota yn yr ystod oedran 14-19 yn ystod yr un cyfnod. Mae'r cymhwyster ôl 16 ar y lefelau Uwch a Chanolradd eisoes wedi'i gyflwyno'n raddol, yn dilyn adroddiad gwerthuso allanol llwyddiannus. Mae hyn yn golygu bod Bagloriaeth Cymru wedi bod ar gael mewn 74 ysgol, coleg a darparwr hyfforddiant trwy Gymru ers mis Medi 2007. Bydd 27 ysgol, coleg a darparwr hyfforddiant arall yn gynnig y cymhwyster o fis Medi 2008 ac yn ystod yr hydref eleni bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwahodd rhagor ohonynt i wneud cais am gam nesaf y cyflwyniad graddol (i gychwyn ym mis Medi 2009).

Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru

Dyma bumed blwyddyn dyfarnu Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru ac amlinellir gofynion asesu'r dyfarniad hwn isod.

Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru	
Craidd	**Opsiynau**
• Pedwar Sgìl Allweddol, dau ar lefel 2 a dau ar lefel 1, gan gynnwys y 'tri cyntaf' h.y. Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a TGCh. Rhaid cael tystiolaeth o ddilyn y chwe Sgìl Allweddol • Adroddiadau Gweithio gyda Chyflogwr, Menter Tîm a Chyfranogiad Cymunedol • Ymchwiliad Unigol ar lefel 2 • Agweddau ar ABCh a Cymru, Ewrop a'r Byd	Pedair A*-C yn y TGAU neu NVQ lefel 2 neu CABAT Cyntaf ar lefel llwyddo neu gywerth.

Diploma Sylfaen Bagloriaeth Cymru

Amlinellir gofynion asesu Diploma Sylfaen Bagloriaeth Cymru isod.

Diploma Sylfaen Bagloriaeth Cymru	
Craidd	**Opsiynau**
• Pedwar sgìl allweddol ar lefel 1, y mae'n rhaid iddynt gynnwys un o'r 'tri cyntaf' h.y. Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a TGCh, a thystiolaeth o fod wedi dilyn y chwe sgìl allweddol. • Adroddiadau Gweithio gyda Chyflogwr, Menter Tîm a Chyfranogiad Cymunedol • Ymchwiliad Unigol ar lefel 1 • Agweddau ar ABCh a Cymru, Ewrop a'r Byd	Pedair D-G yn y TGAU neu NVQ lefel 2 neu Ddiploma Rhagarweiniol CABAT ar lefel llwyddo neu gywerth

Daw ymgeiswyr Diploma Canolradd a Sylfaen Bagloriaeth Cymru yn yr haf 2008 o'r ysgolion a'r colegau peilot canlynol:

Rhif y Ganolfan	Enw'r Ganolfan	Canolradd	Sylfaen
68105	Ysgol Bryn Elian	X	X
68112	Coleg Glannau Dyfrdwy	X	X
68138	Ysgol Dinas Bran		X
68154	Coleg Llandrillo	X	X
68159	Ysgol Uwchradd Y Rhyl		
68163	Ysgol Rhiwabon	X	X
68165	Ysgol Brynhyfryd		
68184	Ysgol Morgan Llwyd	X	
68189	Coleg Iâl		X
68204	Ysgol Penglais	X	
68231	Ysgol y Preseli	X	X
68239	Coleg Sir Benfro	X	X
68246	Ysgol Tre Gib	X	X
68250	Coleg Sir Gar	X	X
68306	Ysgol Maesaleg	X	
68329	Coleg Gwent – Campws Crosskeys	X	X
68339	Coleg Gwent – Campws Glyn Ebwy	X	X
68357	Ysgol Uwchradd Bettws	X	
68358	Ysgol Uwchradd Duffryn	X	
68359	Ysgol Uwchradd Hartridge	X	
68360	Ysgol Gyfun Lliswerry	X	
68363	Ysgol Uwchradd Babyddol St Joseph	X	
68364	Ysgol St Julian	X	
68365	Coleg Gwent – Campws Casnewydd	X	X
68375	Coleg Gwent – Campws Pontypŵl	X	X
68376	Ysgol Uwchradd Babyddol St Alban		
68389	Coleg Gwent – Campws Brynbuga	X	
68408	Coleg Menai	X	X
68483	Coleg Meirion Dwyfor		
68506	Coleg Morgannwg Aberdâr	X	
68521	Ysgol Gyfun Bryntirion	X	X
68524	Coleg Penybont	X	
68542	Coleg Morgannwg Rhondda	X	
68550	Ysgol Uwchradd Pen Y Dre		
68568	Ysgol Uwchradd Babyddol Cardinal Newman		X
68570	Coleg Morgannwg Pontypridd	X	
68575	Ysgol Gymunedol Sirol Y Porth	X	
68581	Ysgol Gyfun Babyddol Archesgob McGrath	X	
68592	Y Coleg Ystrad Mynach		X
68615	Ysgol Uwchradd Llanfair ym Muallt	X	X
68705	Ysgol Gyfun Y Barri	X	
68707	Coleg Y Barri	X	X
68711	Ysgol Gyfun Bro Morgannwg	X	
68718	Ysgol Uwchradd Cantonian		
68720	Ysgol Uwchradd Cathays	X	X
68728	Coleg Dewi Sant		X
68745	Coleg Glan Hafren	X	X

68751	Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd	X	
68783	Ysgol St Cyres	X	X
68796	Ysgol Gyfun Plasmawr		
68830	Coleg Castell Nedd Port Talbot	X	X
68845	Coleg Castell Nedd Port Talbot (Parc Margam)		X
68857	Ysgol Gyfun Babyddol Esgob Vaughan	X	
68860	Coleg Abertawe		

Gellir cael gwybodaeth ychwanegol am Gymhwyster Bagloriaeth Cymru ar wefan www.wbq.org.uk

CBAC

WJEC CBAC Cyf yw'r unig gorff dyfarnu sydd â'i bencadlys yng Nghymru.

Wrth weinyddu arholiadau ar draws pob lefel mae CBAC eleni wedi

- penodi dros 4,000 o arholwyr a safonwyr i ymdrin â'i waith arholiadau, y mwyafrif ohonynt yn athrawon gweithredol gyda phrofiad proffesiynol helaeth
- derbyn cofrestriadau o'r holl ysgolion a cholegau yng Nghymru, a thua 3,000 o ganolfannau yn Lloegr
- gosod dros 500 o bapurau cyfrwng Cymraeg, gan gyfrif am dros 25,000 o gofrestriadau pwnc
- cynnig 345 o sesiynau hyfforddiant mewn swydd (a fynychwyd gan dros 12,000 o athrawon)
- darparu'n eang ar gyfer ymgeiswyr gydag anghenion asesu arbennig.

GWYBODAETH GYFFREDINOL AR Y SYSTEM ARHOLIADAU

Monitro Safonau yn Allanol

Yn y pen draw, mae'r holl gyrff dyfarnu'n atebol i'r Awdurdodau Rheoleiddio – QCA (Lloegr), APADGOS (Cymru) a CCEA (Gogledd Iwerddon) – am safonau'r arholiadau. Bydd yr awdurdodau rheoleiddio yn monitro safonau'r cyrff dyfarnu.

Yn ogystal, bydd y cyrff dyfarnu eu hunain yn cynnal nifer o astudiaethau cymaroldeb i gymharu safonau.

Mae cynnal a chadw safonau o fewn ac ar draws yr holl gymwysterau yn hanfodol bwysig i'r holl gyrff dyfarnu.

Sut y bydd arholiadau'n cael eu gosod a'u marcio

Bydd pob papur arholiad yn cael ei archwilio'n drylwyr i wneud yn siwr ei fod yn glir, yn cynrychioli prawf teg o'r fanyleb ac yn cael ei bennu ar y lefel gywir ar gyfer y myfyrwyr. Mae gosod papurau arholiadau yn amodol ar reolaeth ansawdd ofalus ac yn cynnwys tîm o arholwyr ac athrawon profiadol a phroses safoni a gwirio drylwyr. Mae'r holl broses yn dilyn rheolau a bennir gan yr Awdurdodau Rheoleiddio.

Mae gan bob corff dyfarnu:

- un person sydd yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau ansawdd a safonau ei holl gymwysterau;
- Cadeirydd Arholwyr sy'n gyfrifol am gynnal safonau flwyddyn ar ôl blwyddyn ar draws gwahanol fanylebau (meysydd llafur) mewn pwnc;
- Prif Arholwyr ar gyfer pob manyleb;
- Uwch Arholwyr sy'n gyfrifol am osod papur arholiad a safoni'r marcio.

Ymholiadau am Ganlyniadau ac Apeliadau

Gall canolfan arholiadau (ysgol neu goleg) sy'n bryderus am y radd a ddyfarnwyd i fyfyriwr ofyn am ail-wirio'r papur(au) ac adolygu'r marcio. Gelwir hyn yn ymholiad am ganlyniad.

Mae adolygu'r marcio yn cynnwys ail-asesiad o'r gwaith gan Arholwr Hŷn. Yn dilyn adolygu'r marcio, gellir cadarnhau, gostwng neu godi graddau ymgeiswyr.

Bydd y Corff Dyfarnu yn trefnu i uwch arholwyr adolygu marcio'r papurau yn ôl y cynllun marcio gwreiddiol. Bydd gwiriad clerigol hefyd yn cael ei gynnal i sicrhau bod y marciau wedi'u cyfrifo a'u cofnodi'n gywir. Ysgrifennir at y ganolfan gyda chanlyniad yr ymholiad. Os yw'r ganolfan yn dal i fod yn anhapus yn dilyn adolygu'r marcio, gellir cyflwyno apêl.

Dychwelyd sgriptiau

Yn ystod y blynyddoedd ddiwethaf bu cryn symud tuag at gynyddu didwylledd ac eglurder y system arholiadau gyhoeddus. Er 2000, mae'r myfyrwyr wedi gallu gofyn am gael dychwelyd sgriptiau arholiad wedi'u marcio yn ôl iddynt yn y rhan fwyaf o bynciau fel y gallant weld sut ac ym mhle yn union yr oeddent wedi ennill eu marciau. Bydd y trefniant hwn yn parhau yn 2008.

Mynediad a chydraddoldeb cyfle

Mae'r holl gyrff dyfarnu yn hyrwyddo mynediad a chydraddoldeb cyfle yn y system arholiadau trwy ddarparu ar gyfer ymgeiswyr gyda gofynion arbennig.

Yn yr un modd, bydd y cyrff dyfarnu'n rhoi ystyriaeth arbennig i fyfyrwyr sydd wedi dioddef problemau megis salwch, anaf neu brofedigaeth ar adeg yr arholiad. Ceir nifer fawr o geisiadau am ystyriaeth arbennig bob haf ac ymdrinnir â phob un yn unigol.

Am wybodaeth bellach cysyllter â'r:

Gareth Pierce, Prif Weithredwr
CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd
CF5 2YX

Ceri Thomas, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu
02920 2026 5309, ceri.thomas@cbac.co.uk

neu:

Carys Lamb, Swyddog Cyfathrebu
029 2026 5102, carys.lamb@cbac.co.uk